# Jwchraddio Taith Taf - Parc Hailey

## Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

**Mawrth 2024**

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymgynghori a'r ymgysylltu a wnaed ar gyfer y cynllun uchod.

Mae'r adroddiad yn cofnodi'r ymgynghoriadau cyhoeddus a'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd. Mae hyn yn cynnwys y gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd diweddaraf a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Awst 2023. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd yn yr ymatebion a gyflwynwyd ac yn rhoi ymateb y Cyngor i bob mater.

## 2.0 Y cynigion

Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu cynigion i wella'r rhan hir sefydledig o Daith Taf sy'n rhedeg drwy Barc Hailey rhwng Heol y Bont a Heol Tŷ Mawr.
Mae Taith Taf yn rhan o rwydwaith o lwybrau y mae'r Cyngor am eu datblygu a/neu eu gwella er mwyn annog mwy o deithio llesol a chyflawni ei ddyletswyddau statudol y gosodwyd arno gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

Mae'r llwybr presennol drwy Barc Hailey yn cael ei rannu'n swyddogol gan gerddwyr a beicwyr fel y bu ers blynyddoedd lawer. Y cynigion yw lledu'r llwybr ac adlinio rhan ohono er mwyn galluogi holl ddefnyddwyr y parc i symud yn ddiogel o fewn neu drwy'r parc. Y bwriad yw gwella profiad holl ddefnyddwyr y llwybr.

Byddai rhannau o'r cynllun arfaethedig yn dilyn aliniad amgen. Mae rhannau eraill o'r llwybr yn dilyn aliniad amgen. Ar y pen gogleddol byddai'r aliniad amgen yn osgoi rhan gul o'r llwybr presennol sy'n pasio'n agos at goed a fyddai'n cael eu cadw.

Ar y pen deheuol cynigir aliniad amgen i osgoi nifer o gyfyngiadau - agosrwydd coed, seilwaith presennol a nodweddion ecolegol gan gynnwys diogelu rhywogaethau o ffyngau.

## 3.0 Ymgynghoriadau ac Ymgysylltu

### 3.1 Ymgysylltu Cynnar

Lluniwyd adroddiad ar Astudiaeth Llwybr Taith Taf, a gomisiynwyd gan y Cyngor, gan Sustrans ym mis Ionawr 2018. Edrychodd yr astudiaeth hon ar y problemau a'r syniadau i wella Taith Taf rhwng Heol Penarth a Thongwynlais. Cynhaliwyd arolwg o ddefnyddwyr Taith Taf fel rhan o'r astudiaeth a amlygodd fod angen gwella'r rhan trwy Barc Hailey. Wrth ddatblygu'r cynllun, cynhaliwyd ymgysylltu cynnar ag adran Parciau Cyngor Caerdydd, ymgynghorwyr allanol / tyfwyr coed, Cyfeillion Parc Hailey, Dinas Feicio Caerdydd a Sustrans.

## 3.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus – Mawrth 2020

Roedd y cynigion cychwynnol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2020.

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Arolwg byr ynghyd â'r dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Caerdydd.
- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun.
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun.
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol.
- Datganiad i'r wasg.
- Gwybodaeth ar dudalen flaen gwefan y Cyngor
- Cyfryngau cymdeithasol

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yng nghaffi Ride My Bike ar 11 Mawrth 2020 rhwng 17.30 a 19.30 i edrych ar gynlluniau Parc Hailey a Beicffordd 4.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori pellach yn ôl y bwriad yn 2il Grŵp Sgowtiaid Llandaf, Belle Vue Crescent ar 14 Mawrth 2020 rhwng 10.00 a 14.00 i edrych ar gynllun Parc Hailey a'i drafod.

Oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo, nid oedd modd cynnal unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori pellach. Fodd bynnag, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i bobl wneud sylwadau a rhoi adborth ar y cynllun, cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn am bythefnos arall.

Cafwyd 348 o ymatebion i'r ymgynghoriad trwy'r arolwg byr. Yn gyffredinol, roedd 42.8% o'r ymatebwyr o blaid y cynigion. Roedd 17.2% o'r ymatebwyr o blaid y cynigion yn rhannol. Nid oedd 39.7% o'r ymatebwyr o blaid y cynigion ac ni wnaeth 0.3% nodi ffafriaeth. Yn ogystal â'r arolwg byr, cafwyd 47 o ymatebion dros e-bost, cyflwynwyd 17 o ymatebion yn ystod y digwyddiad ymgysylltu yn Neuadd Sgowtiaid Llandaf a chafwyd 14 o ymatebion yn ystod y digwyddiad ymgysylltu yng nghaffi Ride My Bike.

Ar ôl yr ymgynghoriad cyntaf ar y cynllun, gwnaed y newidiadau canlynol i ddyluniad y cynllun:

- Adlinio'r llwybr wrth ymyl Mary Street i gynnal parcio i breswylwyr a pharcio i ymwelwyr ar ochr ddeheuol Mary Street.
- Darparu cysylltiad ychwanegol i gerddwyr â'r llwybr troed ar Mary Street i roi gwell cysylltedd i gerddwyr sy'n mynd i'r parc o Mary Street.
- Defnyddio marciau llawr sy'n tynnu sylw at yr angen i 'rannu gyda gofal drwy gydol y cynllun i hysbysu'r holl ddefnyddwyr eu bod yn defnyddio man a rennir o fewn amgylchedd parc.
- Dileu'r murlun stryd arfaethedig o'r rhan o'r llwybr wrth ymyl yr ardaloedd chwarae i blant.
- Lleihau lled y llwybr o 5 metr i 4 metr.

Ymchwiliwyd i aliniad y llwybr trwy Barc Hailey yn dilyn pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad am agosrwydd y rhan newydd o'r llwybr i'r ardaloedd chwarae. Cynhyrchwyd model 3D i alluogi swyddogion y Cyngor i ddelweddu'r rhan hon o'r cynllun. Defnyddiwyd y

deunyddiau hyn fel rhan o ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd pellach a gynhaliwyd yng ngwanwyn/haf 2023.

### 3.3 Ymgysylltu ar y Cynllun yng Ngwanwyn/Haf 2023

#### Digwyddiad 'Galw Heibio' Cyhoeddus – 19 Ebrill 2023

Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu galw heibio yn Neuadd Sgowtiaid Ystum Taf ddydd Mercher 19 Ebrill rhwng 5pm ac 8pm.

Cyn y digwyddiad, postiwyd gwahoddiadau i dros 600 o eiddo preswyl ar strydoedd i'r gorllewin o Heol yr Orsaf ac i'r de, gan gynnwys ardal Heol Tŷ Mawr yn Ward Ystum Taf. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Roedd copïau papur o'r cynlluniau trefniant cyffredinol a darnau o’r delweddau 3D o’r cynllun yn cael eu harddangos ar waliau a byrddau. Dangosodd swyddogion fideo o'r delweddau 3D ar gyfrifiadur personol a monitor yn y digwyddiad.

#### Cyhoeddi’r cynlluniau diwygiedig a’r delweddau 3D ar-lein: Dydd Iau 13 Gorffennaf - dydd Gwener 11 Awst 2023.

Cyhoeddwyd copïau o'r holl gynlluniau a deunyddiau ar wefan y Cyngor am bedair wythnos rhwng dydd Iau 13 Gorffennaf a dydd Gwener 11 Awst 2023.

Cyflwynwyd 20 o ymatebion yn y digwyddiad ymgysylltu yn Neuadd Sgowtiaid Llandaf. Derbyniwyd 125 o ymatebion drwy e-bost.

#### Cyfarfod Safle gyda rhanddeiliaid/taith o’r cynllun 1 Awst 2023

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol ac ymgyngoreion cynllun ar y safle i wneud taith o’r llwybr arfaethedig a thrafod cynigion y cynllun. Y grwpiau a gynrychiolwyd yn y cyfarfod oedd:

- Cyfeillion Parc Hailey
- Cymdeithas Trigolion Llandaf
- Dinas Feicio Caerdydd
- Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yr Eglwys Newydd

Rhoddodd y cyfarfod gyfle i’r rhanddeiliaid drafod eu pryderon am y cynllun â’r swyddogion yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig ar 11 Awst 2023.

## 4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mae'r materion penodol a godwyd drwy'r prosesau ymgynghori ac ymgysylltu wedi'u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor.

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Ymgynghori annigonol o ganlyniad i ganslo digwyddiadau ymgysylltu | Cynhaliwyd ymgysylltu cynnar ag adran Parciau Cyngor Caerdydd, ymgynghorwyr allanol / tyfwyr coed, Cyfeillion Parc Hailey, Dinas Feicio Caerdydd a Sustrans. Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yng Nghaffi Ride My Bike ar 11 Mawrth 2020 rhwng 17.30 a 19.30 i edrych ar gynlluniau Parc Hailey a Beicffordd 4. Cynhaliwyd |

| Mater | Ymateb |
| --- | --- |
| | digwyddiad ymgynghori yn ôl y bwriad yn 2il Grŵp Sgowtiaid Llandaf, Belle Vue Crescent ar 14 Mawrth 2020 rhwng 10.00 a 14.00 i edrych ar gynllun Parc Hailey a'i drafod. Daeth llawer o bobl i'r digwyddiad hwn.<br>Gan nad oedd modd cynnal yr ail o'r ddau ddigwyddiad ymgysylltu a gynlluniwyd, ac i sicrhau bod pawb yn gallu gwneud sylwadau a rhoi adborth ar y cynllun, cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn am bythefnos arall. Lle'r oedd yn bosibl, ymatebodd Swyddogion i ymholiadau dros e-bost a dros y ffôn drwy gydol y cyfnod ymgynghori.<br><br>Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar gynigion diwygiedig rhwng mis Ebrill a mis Awst 2023. |
| **Dylid rheoli cyflymderau beicwyr.**<br><br>**Bydd y llwybr yn achosi gwrthdaro ychwanegol oherwydd cyflymder beicio.**<br><br>**Pryderon bod y llwybr beicio yn beryglus.**<br><br>*"PETAI beicwyr yn ei ddefnyddio fodd bynnag, mae cael y llwybr beicio wrth ymyl y parciau chwarae yn gwbl beryglus".*<br><br>*"Beicwyr yn agosáu at gerddwyr/rhedwyr/cŵn/plant yn gyflym iawn heb glychau - peryglus iawn".*<br><br>*"Mae cael beiciwr yn torri trwy ganol y parc lle mae plant, cerddwyr a chŵn i gyd yn crwydro'n rhydd yn beryglus i bawb."*<br>*"Bydd beicwyr yn mynd hyd yn oed yn gyflymach ar lwybr ehangach - maen nhw eisoes yn mynd yn gyflym."* | Bydd arwyddion priodol yn cael eu cynnwys yn y cynllun i gynghori defnyddwyr y llwybr sut i ddefnyddio'r llwybr yn ddiogel ac i annog ymddygiad ystyriol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ymgyrch hyrwyddo i atgyfnerthu negeseuon allweddol i wahanol grwpiau defnyddwyr.<br><br>Bydd byrddau uwch yn cael eu gosod ar ran newydd y llwybr a rennir i arafu cyflymderau beicio lle bo angen.<br>Bydd lled ychwanegol y llwybr yn cael gwared ar droadau dall ac yn gwella gwelededd i bob defnyddiwr. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i osgoi gwrthdaro.<br><br>Er mwyn rheoli cyflymder beicwyr ger yr ardal chwarae i blant i'r de o'r parc bydd marciau 'Araf' yn cael eu rhoi ar y rhannau o'r llwybr sy'n agosáu at yr ardaloedd chwarae a fydd yn arwydd o bresenoldeb y maes chwarae a'r llwybrau cyfagos ac felly'n rhoi gwybod i feicwyr bod angen iddynt arafu.<br><br>Bydd lled y llwybr yn cael ei leihau o 5 metr fel y cynigiwyd yn wreiddiol i 4 metr a fydd yn mynd i'r afael â phryderon am gyflymder beicio. |
| **Bydd cyflymderau beicwyr wrth ymyl yr ardaloedd chwarae yn creu pryderon diogelwch ychwanegol.** | Bydd marciau 'Araf' yn cael eu rhoi ar y rhannau o'r llwybr ger yr ardal chwarae i blant er mwyn annog beicwyr sy'n agosáu i arafu. |

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| **Mae'r llwybr newydd yn rhy agos at yr ardaloedd chwarae i blant.**<br><br>**Bydd plant sy'n crwydro mewn perygl gan eu bod yn agos at feicwyr.**<br><br>**Colli ardaloedd chwarae i blant**<br><br>**Pryderon am agosrwydd y llwybr beicio i'r maes chwarae.**<br><br>*"Rwy'n credu y byddai cael beicwyr mor agos i'r maes chwarae a'r ardal i deuluoedd yn beryglus a chan fod y llwybr ar oleddf, bydd yn rhaid i feicwyr gael rhywfaint o fomentwm i ddringo, a phe bai angen iddyn nhw stopio'n sydyn, gallai hynny arwain at anaf/gwrthdaro i feicwyr, cerddwyr a hyd yn oed cŵn".*<br><br>*"mae cael y llwybr beicio wrth ymyl y parciau chwarae yn gwbl beryglus".*<br><br>*"Mae gen i bryderon difrifol am ba mor gyflym y mae rhai beicwyr yn teithio ac nid ydw i'n siŵr pa mor effeithiol fyddai'r arwyneb ger y maes chwarae i blant bach o ran arafu'r rhai nad ydyn nhw'n ddefnyddwyr ystyriol? Pa dystiolaeth sydd y byddai'r mesurau ar y rhan hon yn arafu beicwyr i bob pwrpas? Sut mae'r cynllunwyr wedi ystyried hawliau plant?"* | Caiff arwyddion eu gosod i roi gwybod i bob defnyddiwr ei fod mewn amgylchedd parc, gan annog ethos 'rhannu gyda gofal' cyfeillgar er mwyn hyrwyddo ymddygiad cwrtais.<br>Ni fydd y cynllun yn arwain at golli unrhyw le chwarae i blant.<br><br>Ar ôl cwblhau model 3D sy'n canolbwyntio ar y rhan o'r llwybr wrth ymyl yr ardaloedd chwarae, gellir gweld bod aliniad y llwybr wedi'i leoli ar bellter diogel ar gyfer mynediad i'r ardaloedd chwarae.<br><br>Bydd marciau 'Araf' yn cael eu rhoi ar y rhannau o'r llwybr ger yr ardal chwarae i blant er mwyn annog beicwyr sy'n agosáu i arafu.<br><br>Caiff arwyddion eu gosod i roi gwybod i bob defnyddiwr ei fod mewn amgylchedd parc, gan annog ethos 'rhannu gyda gofal' cyfeillgar er mwyn hyrwyddo ymddygiad cwrtais.<br><br>Ni fydd y cynllun yn arwain at golli unrhyw le chwarae i blant a bydd yn cynnig mynediad haws at y cyfleusterau chwarae i blant sy'n defnyddio Taith Taf (gweler yr Asesiad Effaith Sengl yn **Atodiad 1** isod) |
| **Pryderon am faint y llwybr.**<br><br>*"Bydd maint y llwybr arfaethedig; o ystyried y disgwyliad gwirioneddol iawn na fydd beicwyr yn ei ddefnyddio fel rydych yn cynnig, yn golygu unwaith eto y bydd y Cyngor yn cymryd ardal fawr o dir Parciau Caerdydd".*<br><br>*"Mae'n ymddangos bod y lled arfaethedig yn ormodol".*<br>*"Mae 4 metr yn eithaf hurt mewn parc o'r maint hwnnw."* | Mae aliniad newydd y llwybr i'r gogledd o'r cyrtiau tennis yn osgoi'r rhan bresennol o lwybr a gafodd ei difrodi yn ystod y llifogydd ar ddechrau 2020.<br>Bydd suddfannau dŵr a nodweddion draenio ychwanegol yn cael eu gosod i sicrhau bod dŵr wyneb yn gallu llifo oddi ar y llwybr. |
| **Dylai llwybrau ddilyn y llwybr mwyaf uniongyrchol / y llwybr mwyaf dymunol**.<br><br>**A ellir lledu'r llwybr presennol?** | Ymchwiliwyd i aliniadau amgen drwy gydol y broses dichonoldeb a dylunio cysyniadau, ond nid ydynt yn addas am nifer o resymau gan gynnwys, ymhlith eraill, agosrwydd coed, seilwaith presennol a chyfyngiadau ecolegol. Y cynnig cychwynnol oedd lledu'r llwybr presennol. Mae hyn yn ddichonadwy ym mhen gorllewinol Parc Hailey, fodd |

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| | bynnag, nid yw'n bosibl lledu'r llwybr presennol wrth ymyl y cyrtiau tennis oherwydd agosrwydd coed a'r ffaith bod y tir yn gartref i rywogaeth o ffyngau a warchodir.<br><br>Cynhaliodd ymgynghorydd allanol arolygon safle o'r parc i benderfynu a ellid lledu'r llwybr presennol. Penderfynodd yr ymgynghorydd y byddai angen cymryd tir yn uniongyrchol o'r ardal laswelltir sy'n cynnwys rhywogaeth o ffyngau a warchodir a byddai angen cwympo coeden aeddfed hefyd. Ni fyddai hyn ychwaith yn mynd i'r afael â phroblem llifogydd a gafwyd yn y parc yn y gorffennol. |
| **Dylai'r llwybr fod wedi'i wahanu'n llawn.**<br><br>**Dylai fod marciau i ddangos i ddefnyddwyr pa ochr y dylent ei defnyddio.**<br><br>**Cais i'r llwybr beicio gael ei wahanu â lliwiau.**<br><br>*"Allech chi ystyried arwyneb dau liw, efallai 2m o las ar gyfer beicio a 2m o'r lliw llwydfelyn i gerddwyr".*<br><br>*"Byddai llwybr â dau liw yn rhoi'r cyfarwyddyd hwn mewn ffordd gynnil, ond clir iawn."* | Ar ôl ystyried y mater hwn, mae swyddogion wedi penderfynu cadw'r llwybr fel cyfleuster a rennir yn llawn. Y rheswm am hyn yw nad yw cyfleuster sydd wedi'i wahanu'n llawn yn debygol o gadw cerddwyr a beicwyr ar wahân bob amser a allai gynyddu'r posibilrwydd o wrthdaro pan fydd cerddwyr a chŵn yn cerdded yn ddiarwybod o fewn y rhan o'r llwybr a ddynodwyd ar gyfer beicwyr, ac i'r gwrthwyneb. Gall cyfleuster ar wahân i feicwyr hefyd annog beicwyr i fynd yn gyflymach drwy'r parc a allai wneud i gerddwyr a cherddwyr cŵn deimlo'n anghyfforddus.<br><br>Bydd y llwybr arfaethedig nawr yn gyfleuster defnydd a rennir 4 metr o led. Caiff arwyddion eu gosod i roi gwybod i bob defnyddiwr ei fod mewn amgylchedd parc, gan annog ethos 'rhannu gyda gofal' cyfeillgar er mwyn hyrwyddo ymddygiad cwrtais. |
| **Dewis defnyddio'r llwybr presennol fel y llwybr beicio.**<br>*"Fel beiciwr byddwn yn dewis defnyddio'r llwybr presennol gan ei fod yn llwybr mwy uniongyrchol, yn osgoi'r goleddf ac yn osgoi beicio ger y maes chwarae er mwyn osgoi plant. Fel cerddwr byddai'n well gen i'r llwybr newydd i osgoi'r beicwyr a chan ei fod yn llwybr mwy dymunol drwy'r parc".*<br><br>*"Fy awgrym i yw bod y llwybr presennol ar gyfer beicwyr yn unig, llwybr uniongyrchol, a bod y llwybr newydd sy'n cael ei awgrymu* | Ar ôl ystyried y mater hwn, mae swyddogion wedi penderfynu cadw'r llwybr fel cyfleuster a rennir yn llawn. Y rheswm am hyn yw nad yw cyfleuster sydd wedi'i wahanu'n llawn yn debygol o gadw cerddwyr a beicwyr ar wahân bob amser a allai gynyddu'r posibilrwydd o wrthdaro pan fydd cerddwyr a chŵn yn cerdded yn ddiarwybod o fewn y rhan o'r llwybr a ddynodwyd ar gyfer beicwyr, ac i'r gwrthwyneb. Gall cyfleuster ar wahân i feicwyr hefyd annog beicwyr i fynd yn gyflymach drwy'r parc a allai wneud i |

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| *ger y maes chwarae ar gyfer cerddwyr/teuluoedd/cerddwyr cŵn yn unig".*<br><br>*"Ni fydd beicwyr yn defnyddio'r llwybr newydd o amgylch y cyrtiau tennis a byddant yn cadw at yr hen un - gormod o ddargyfeiriad i fyny rhiw."* | gerddwyr a cherddwyr cŵn deimlo'n anghyfforddus.<br><br>Bydd y llwybr arfaethedig nawr yn llwybr defnydd a rennir 4 metr o led. |
| **Mae angen arwyddion ychwanegol.**<br><br>**Cais am newidiadau i arafu beicwyr drwy'r parc.**<br><br>*"Beth am arwyddion mawr yn gofyn i feicwyr...*<br>*1. arafu, canu eu cloch, ac ildio i bobl ar droed,*<br>*2. neu efallai..... jyst cerdded gyda'u beic drwy'r parc".* | Caiff arwyddion eu gosod i roi gwybod i bob defnyddiwr ei fod mewn amgylchedd parc, gan annog ethos 'rhannu gyda gofal' cyfeillgar er mwyn hyrwyddo ymddygiad cwrtais. |
| **Nid yw'n glir sut y bydd y llwybr newydd yn cael ei ddefnyddio** | Bydd gwybodaeth yn cael ei datblygu a'i hyrwyddo i dynnu sylw at sut y dylid defnyddio'r newidiadau arfaethedig i seilwaith. |
| **Bydd 5m yn denu mwy o feiciau baw a mopedau** | Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y gallai llwybr mwy o led ddenu beiciau modur neu fopedau oddi ar y ffordd.<br><br>Bydd lled y llwybr yn cael ei leihau o 5 metr fel y cynigiwyd yn wreiddiol i 4 metr. |
| **Cais am newidiadau i arafu beicwyr drwy'r parc.**<br><br>*"Beth am arwyddion mawr yn gofyn i feicwyr...*<br>*1. arafu, canu eu cloch, ac ildio i bobl ar droed,*<br>*2. neu efallai..... jyst cerdded gyda'u beic drwy'r parc".* | Caiff arwyddion eu gosod i roi gwybod i bob defnyddiwr ei fod mewn amgylchedd parc, gan annog ethos 'rhannu gyda gofal' cyfeillgar er mwyn hyrwyddo ymddygiad cwrtais. |
| **Mae arafu beicwyr yn mynd yn groes i wella cyfleusterau i feicwyr** | Mae cynllun Parc Hailey yn llwybr i bob defnyddiwr ac nid yw'n cael ei weithredu at ddefnydd beicwyr yn unig.  Mae gan bob defnyddiwr ddyletswydd gofal ar gyfer defnyddwyr eraill y parc ac felly mae'n bwysig bod beicwyr yn rheoli eu cyflymderau drwy'r parc.  Mae'r ardaloedd chwarae i blant wedi'u nodi fel rhan allweddol o'r parc a fydd â nifer fwy o ddefnyddwyr ifanc sy'n agored i niwed. Bydd bwrdd arafu yn sicrhau bod beiciau'n |

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| | arafu, ond ni fydd yn effeithio'n andwyol ar ansawdd y llwybr i feicwyr. |
| **Bydd beicwyr yn dal i ddefnyddio'r hen lwybr oni bai bod rhwystrau igam-ogam neu gatiau yn eu hannog i ddefnyddio'r llwybr newydd.**<br><br>**Pryderon na fydd beicwyr yn defnyddio'r llwybr newydd.**<br><br>*"O edrych ar y cynlluniau mae'n amlwg iawn na fydd beicwyr yn defnyddio'r llwybr newydd. Hyd yn oed os yw bolardiau yn cael eu gosod naill ben y llwybr gwaelod presennol ar hyd yr afon, nid oes unrhyw fwriadau i gau'r llwybr hwn felly ni welaf unrhyw reswm na chymhelliant i feicwyr ddefnyddio'r llwybr newydd - sy'n mynd i fyny rhiw ac yn eu harwain tuag at ran brysurach o'r parc."* | Bydd cysylltiadau rhwng y llwybr presennol a'r llwybr newydd yn cael eu creu i sicrhau bod beicwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r llwybr newydd a pheidio â beicio ar y llwybr presennol wrth ymyl yr afon. |
| **Pryderon ynghylch troadau ar y llwybr beicio.**<br><br>*"Byddai'n creu dau dro allai fod yn beryglus, y naill ochr i'r cyrtiau tennis."*<br>*"Nid yw'r ddau dro wedi'u dylunio'n dda ac maen nhw'n beryglus i ddefnyddwyr: yn y gaeaf bydden nhw hefyd yn agored i rewi, gan gyflwyno perygl pellach o gymharu â'r llwybr syth presennol. Bydd y peryglon y mae'r troadau hyn yn eu creu hefyd yn golygu y bydd pobl yn parhau i ddefnyddio'r hen lwybr."*<br>*"Mae'r troadau yn y llwybr ger Cored Llandaf hefyd yn beryglus gan fod y gwelededd yn wael".*<br><br>*"Mae gan y llwybr beicio arfaethedig nifer o gorneli siarp sy'n ychwanegu at y pryderon ynghylch diogelwch o ran sut y byddai'r gofod a rennir gyda beicwyr yn gweithio. Byddai llwybr sythach yn gweithio'n well os oes rhaid iddo fod trwy Barc Hailey."* | Mae'r llwybr wedi'i adlinio wrth ymyl Mary Street i gynnal parcio i breswylwyr a pharcio i ymwelwyr ar ochr ddeheuol Mary Street.<br><br>Bydd cysylltiadau rhwng y llwybr presennol a'r llwybr newydd yn cael eu creu mewn modd sy'n sicrhau bod beicwyr yn defnyddio'r llwybr newydd ac nid yn beicio ar y llwybr presennol wrth ymyl yr afon. |
| **Pryderon am golli mannau gwyrdd.**<br><br>*"Mae parc yn fan gwyrdd gwerthfawr y mae angen ei gadw a'i werthfawrogi".* | Mae'r llwybr wedi'i ddylunio'n benodol i osgoi'r angen i golli coed aeddfed.  Cynhaliwyd arolygon coed a gofynnwyd am gyngor gan ymgynghorwyr mewnol ac allanol ar ddulliau adeiladu diogel o amgylch coed. Bydd coeden fach |

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| *"Fodd bynnag, nid y cynnig i orchuddio cymaint o'n man gwyrdd gyda ffordd bedair metr o led yw’r ateb."*<br><br>*"Mae hwn yn Barc Gwobr y Faner Werdd. Rydyn ni eisiau cadw'r statws mae hynny’n ei roi i ni".* | yn cael ei thynnu i ganiatáu’r cyswllt ar ben dwyreiniol y cynllun. Cynigir y bydd coed ychwanegol yn cael eu plannu o fewn y parc i liniaru tynnu’r goeden. Bydd contractwyr yn cael eu rheoli i sicrhau bod y dulliau gweithio cymeradwy yn cael eu dilyn i sicrhau nad oes unrhyw ddifrod i rwydweithiau coed na gwreiddiau yn ystod y gwaith adeiladu. |
| **Pryderon y bydd y llwybr beicio yn cynyddu'r risg o lifogydd.**<br><br>*"Y peth olaf sydd ei angen arnom yw arwynebau mwy cadarn i leihau faint o dir sy'n gallu amsugno gormod o law. Mae’n siŵr bydd hyn yn gwaethygu'r broblem ac yn cynyddu'r risg o lifogydd o'r afon i gartrefi cyfagos yn y gaeaf?"*<br><br>*"Mae'r cynllun presennol yn mynd trwy ardal sydd â draenio eithriadol o wael."* | Mae aliniad newydd y llwybr i'r gogledd o'r cyrtiau tennis yn osgoi'r rhan bresennol o lwybr a gafodd ei difrodi yn ystod y llifogydd ar ddechrau 2020.<br>Bydd suddfannau dŵr a nodweddion draenio ychwanegol yn cael eu gosod i sicrhau bod dŵr wyneb yn gallu llifo oddi ar y llwybr. |
| **Pryderon am ddifrod i goed.**<br><br>*"Beth am y difrod i wreiddiau coed?"*<br><br>*"Pam ydych chi'n barod i achosi niwed i wreiddiau'r coed sydd wedi bod yn sefyll ers blynyddoedd drwy arllwys concrit drostyn nhw?"*<br><br>**Nid yw'n dderbyniol cael gwared â choed a mannau gwyrdd.**<br><br>**Difetha'r parc / colli mannau gwyrdd.** | Mae’r llwybr wedi’i ddylunio’n benodol i osgoi’r angen i golli coed<br>aeddfed. Cynhaliwyd arolygon coed a gofynnwyd am gyngor gan ymgynghorwyr mewnol ac allanol ar ddulliau adeiladu diogel o amgylch coed. Bydd coeden fach yn cael ei thynnu i ganiatáu’r cyswllt ar ben dwyreiniol y cynllun. Cynigir y bydd coed ychwanegol yn cael eu plannu o fewn y parc i liniaru tynnu’r goeden. Bydd contractwyr yn cael eu rheoli i sicrhau bod y dulliau gweithio cymeradwy yn cael eu dilyn i sicrhau nad oes unrhyw ddifrod i rwydweithiau coed na gwreiddiau yn ystod y gwaith adeiladu. |
| **Pryderon am ffwng capiau cwyr**<br><br>*"Dwi'n credu mai capiau cwyr yw'r rhain - dwi newydd eu gweld. Yn agos iawn at leoliad arfaethedig y ffordd 4m. Fy nealltwriaeth i yw na ellir lledu’r llwybr presennol sy'n gyfochrog â'r afon oherwydd bod capiau cwyr yn y cyffiniau?"*<br><br>**Dylid symud capiau cwyr i leoliad gwahanol a lledu'r llwybr presennol** | Mae aliniad y llwybr yn osgoi'r capiau cwyr ac yn eu galluogi i aros heb eu niweidio yn eu lleoliad presennol.<br>Nid yw'n ddichonadwy adleoli'r capiau cwyr gan na fyddant, o bosibl, yn goroesi mewn amgylchedd gwahanol.<br>Mae'r cap cwyr penfrown Cap Cwyr Gwinau hefyd wedi'i gofnodi yn y Parc ac mae wedi'i restru fel Rhywogaeth â Blaenoriaeth dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (CGB DU). Yn ogystal â’r cap cwyr penfrown,<br>mae’r cap cwyr lemon a’r cap cwyr rhuddgoch hefyd wedi’u gweld yn y parc ac wedi’u |

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| | rhestru yn Agored i Niwed ar Restr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur o Rywogaethau Dan Fygythiad. |
| **Pryderon ynghylch goleuo'r llwybr.**<br><br>*"Nid yw'n cael ei oleuo'n dda gyda'r nos".*<br><br>*"Gyda'r nos, neu yn ystod y gaeaf wrth deithio i'r gwaith neu o'r gwaith pan fydd yn tywyllu'n gynnar, fel arfer rwy'n osgoi defnyddio'r llwybr trwy Barc Hailey gan ei fod heb ei oleuo."* | Nid oes unrhyw gynlluniau i oleuo'r llwybr. |
| **Dylid ail-lwybro'r llwybr newydd ar hyd hen lwybr y gamlas.**<br><br>**Dylid symud traffig beicwyr sy'n cymudo i lwybr newydd a chynnal y llwybr presennol ar gyfer cerddwyr yn unig.**<br><br>**Cais i ddefnyddio llwybr beicio amgen a gynigiwyd gan Dinas Feicio Caerdydd.**<br><br>*"Rwy'n eich annog i ailystyried eich cynnig, a mabwysiadu'r ateb a awgrymwyd gan Dinas Feicio Caerdydd yn lle hynny."*<br><br>*"Byddwn yn cefnogi'r cynnig amgen a gyflwynwyd gan Dinas Feicio Caerdydd sef llwybr beicio ar wahân sy'n rhedeg i lawr ymyl ddwyreiniol y parc, y tu ôl i Lidl a heibio i'r fynedfa i Ysgol Glantaf."* | Un o nodau'r cynllun yw lleihau'r gwrthdaro presennol rhwng yr holl ddefnyddwyr ar hyd Taith Taf drwy Barc Hailey.<br><br>Ni fyddai ail-lwybro'r llwybr ar hyd aliniad llwybr Camlas Sir Forgannwg yn mynd i'r afael â hyn. Mae swyddogion wedi ystyried yr opsiwn hwn ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n ddichonadwy oherwydd:<br><br>1. Gwrthdaro â'r defnydd o'r lôn sy'n rhedeg ar hyd ymyl y parc yng nghefn eiddo ar Hazlehurst Road sy'n darparu mynediad i gerbydau i garejys domestig.<br><br>2. Y canopïau isel a'r ardaloedd diogelu gwreiddiau coed aeddfed sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r lôn honno.<br><br>3. Cost a chymhlethdod sylweddol iawn ail-ddylunio cyffyrdd Heol yr Orsaf a Heol Gabalfa a Heol Gabalfa/Rhodfa Gabalfa (ynghyd â'r prif fynediad i gerbydau i Ysgol Glantaf).<br><br>4. Goblygiadau rhwydwaith ehangach a chostau posibl lliniaru gwaith cyffordd.<br><br>5. Cyfyngiadau gofod ar Heol Gabalfa |
| | |

| Mater | Ymateb |
| --- | --- |
| **Ardal fawr o ddŵr yn cronni / llifogydd yn Heol Tŷ Mawr**<br><br>**Mae angen draenio gwell.** | Bydd mesurau draenio / suddfannau dŵr ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y cynllun. |
| **Parcio ceir wrth y mynediad i Barc Hailey** | Bydd bolardiau'n cael eu rhoi wrth gyswllt gorllewinol y cynllun a fydd yn galluogi beicwyr a cherddwyr i barhau ar hyd Heol Tŷ Mawr a Thaith Taf. |
| **Beth ddigwyddodd y tu hwnt i Heol y Bont**<br><br>**Mae angen edrych ar y rhan i'r de o Heol y Bont** | Rhan Parc Hailey o'r llwybr yw'r cyntaf mewn cyfres o brosiectau i wella Taith Taf i bob defnyddiwr.<br><br>Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dyluniad ar gyfer gwella a lledu'r rhan o lwybr Taith Taf i'r de o Heol y Bont (bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo ym mlwyddyn ariannol 2024/25). |
| **Colli lleoedd parcio ar Mary Street i breswylwyr ac ymwelwyr**<br><br>**Yn rhwystro mynediad i'r parc o Mary Street**<br><br>**Mae'r rhai sy'n byw yn Mary Street wedi dweud y byddan nhw heb gysylltiad â'r parc ac y byddan nhw'n colli ardal sy'n cael ei defnyddio drwy gydol yr haf.** | Mae'r llwybr wedi'i adlinio wrth ymyl Mary Street i gynnal parcio i breswylwyr a pharcio i ymwelwyr ar ochr ddeheuol Mary Street.<br><br>Bydd cysylltiad ychwanegol i gerddwyr â'r llwybr troed ar Mary Street yn rhoi gwell cysylltedd i gerddwyr sy'n defnyddio'r parc o Mary Street.<br><br>Gellir gosod meinciau newydd ar hyd y llwybr sy'n wynebu'r cyrtiau tennis i alluogi defnyddwyr y parc i eistedd a mwynhau amgylchedd y parc. |
| **Dylid dychwelyd yr hen lwybrau i barcdir** | Ymchwiliwyd i hyn; fodd bynnag, mae'r llwybrau presennol yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr y parc. |

## 5.0 Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu.

### 5.1 Newidiadau a wnaed yn dilyn ymgynghori yn 2020.

Y newidiadau a wnaed i gynigion y cynllun yn dilyn yr ymgynghori yn 2020 oedd:

- Adlinio'r llwybr wrth ymyl Mary Street i gynnal parcio i breswylwyr a pharcio i ymwelwyr ar ochr ddeheuol Mary Street.
- Darparu cysylltiad ychwanegol i gerddwyr â'r llwybr troed ar Mary Street i roi gwell cysylltedd i gerddwyr sy'n mynd i'r parc o Mary Street.
- Defnyddio marciau llawr sy'n tynnu sylw at yr angen i 'rannu gyda gofal drwy gydol y cynllun i hysbysu'r holl ddefnyddwyr eu bod yn defnyddio man a rennir o fewn amgylchedd parc.

- Dileu’r murlun stryd arfaethedig o'r rhan o'r llwybr wrth ymyl yr ardaloedd chwarae i blant.
- Lleihau lled y llwybr o 5 metr i 4 metr.

### 5.2 Newidiadau ychwanegol a wnaed yn dilyn ymgysylltu yn 2023.

Y newidiadau a wnaed i gynigion y cynllun yn dilyn yr ymgysylltu yn 2023 oedd:

- Gosod suddfannau dŵr pwrpasol wedi'u dylunio i leihau dŵr wyneb ffo i fynd i'r afael â phryderon llifogydd.
- Adlinio’r rhan o'r llwybr wrth ymyl ochr ddwyreiniol y cyrtiau tennis i leihau’r effaith ar y rhwydwaith gwreiddiau a choed.
- Culhau’r llwybr mewn mannau i'r de o'r caeau chwarae i ddarparu ar gyfer suddfannau dŵr newydd.

Mae copïau o gynlluniau'r cynllun (fel y'u diwygiwyd yn dilyn y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gofnodir yn yr adroddiad hwn) wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2**.

## 6.0 Casgliadau

1. Mae adborth o'r gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn amlygu nifer o bryderon ynghylch y cynigion yn benodol, colli mannau gwyrdd, lled y llwybr a phryderon y bydd hyn yn arwain at feicwyr yn teithio'n gyflymach, agosrwydd y llwybr arfaethedig i'r droedffordd wrth ymyl Mary Street, agosrwydd yr ardaloedd chwarae i blant a phryderon ynghylch diogelwch hyn, effaith weledol y cynllun a phryderon am ddŵr glaw ffo ac effeithiau llifogydd posibl.

2. Gwnaed nifer o newidiadau i'r cynigion gwreiddiol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn:

    a. Adlinio'r llwybr arfaethedig ymhellach i ffwrdd o Mary Street
    b. Lleihau lled y llwybr arfaethedig o 5 metr i 4 metr.
    c. Tynnu'r murlun paentiedig yng nghyffiniau’r ardaloedd chwarae i blant.
    d. Rhoi marciau 'Araf' ar y llwybr a marciau sy’n tynnu sylw at yr angen i ‘rannu gyda gofal’.
    e. Gosod suddfannau dŵr pwrpasol wedi'u dylunio i leihau dŵr wyneb ffo i fynd i'r afael â phryderon llifogydd.

3. Mae'r rhan hon o Daith Taf yn hirsefydlog. Nid yw lled na chyflwr presennol y llwybr trwy Barc Hailey yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol yng Nghanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun arfaethedig yn cyflawni'r gofyniad hwn.

4. Mae aliniad amgen ar gyfer Taith Taf wedi cael ei gyflwyno gan Dinas Feicio Caerdydd. Mae swyddogion y Cyngor wedi ystyried hyn yn llawn. Mae eu hasesiad wedi dod i'r casgliad bod nifer o gyfyngiadau ar sefydlu llwybr ar hyd yr aliniad hwn, sy'n golygu nad yw'r cynnig yn ddichonadwy.

5. O ystyried y canfyddiadau hyn, cynigion y Cyngor, fel y'u diwygiwyd mewn ymateb i adborth ymgynghori, yw'r unig ffordd y gellir uwchraddio Taith Taf trwy Barc Hailey.

6. I gloi, felly, argymhellir, yn amodol ar gael y cyllid angenrheidiol, fod cynigion y Cyngor yn cael eu gweithredu. Yn ogystal, dylai'r Cyngor ymchwilio i opsiynau ar gyfer lledu a gwella'r rhan o Daith Taf i'r de o Heol y Bont i ategu'r gwelliannau i Daith Taf trwy Barc Hailey.

Atodiad 1 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

# Single Impact Assessment

Cardiff Council

STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

## 1. Manylion y Cynnig

| **Beth yw'r cynnig?** | |
|---|---|
| Teitl: | Gwelliannau i Daith Taf ym Mharc Hailey |

| **Ai cynnig newydd yw hwn neu a ydych chi'n diwygio polisi, strategaeth, prosiect, gweithdrefn neu wasanaeth sy'n bod eisoes?** | |
|---|---|
| Newydd | ☒ |
| Yn bod eisoes | ☐ |

| **Cyfarwyddiaeth / Gwasanaeth:** |
|---|
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |

| **Pwy sy'n datblygu'r cynnig?** | |
|---|---|
| Enw: | David Thomas |
| Teitl Swydd: | Rheolwr Prosiect |

| **Swyddog Arweiniol Cyfrifol (Cyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol):** |
|---|
| |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual

One Planet Cardiff

Child Friendly CARDIFF

| |
|---|
| Andrew Gregory |

| **Portffolio'r Cabinet:** |
|---|
| |

| **Awdurdodiad** | |
|---|---|
| Cwblhawyd Gan: | David Thomas |
| Teitl Swydd: | Rheolwr Prosiect |
| Dyddiad: | 22/03/2024 |
| Cymeradwywyd gan: | |
| Teitl Swydd: | |

***Hanes y ddogfen – peidiwch â'i olygu***

*Gellir cryfhau'r Asesiad Effaith Sengl (AES) wrth i amser fynd yn ei flaen, gan helpu i lunio'r cynnig. Bydd rheoli fersiwn yn cynnig llwybr archwilio defnyddiol o sut mae'r AES wedi datblygu. Dylid cadw fersiynau drafft o'r asesiad ar gyfer cyflawnrwydd, ond dim ond y fersiwn derfynol fydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir darparu fersiynau drafft i reoleiddwyr os yw'n briodol.*

| **Fersiwn** | **Awdur** | **Teitl y Swydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

## 2. Trosolwg o'r Cynnig

| **Pa gamau y mae'r Cygor yn eu hystyried a pham?**<br>*Rhowch amlinelliad manwl o'r cynnig. Bydd yr wybodaeth hon yn cefnogi eich canfyddiadau yn yr asesiadau effaith.* |
|---|
| Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu cynigion i wella'r rhan hir sefydledig o Daith Taf sy'n rhedeg drwy Barc Hailey rhwng Heol y Bont a Tŷ Mawr Road.<br>Mae'r Daith Taf yn rhan o rwydwaith o lwybrau y mae'r Cyngor am eu datblygu a/neu eu gwella er mwyn annog mwy o deithio llesol a chyflawni ei ddyletswyddau statudol y gosodwyd arno gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).<br>Mae'r llwybr presennol drwy Barc Hailey yn cael ei rannu'n swyddogol gan gerddwyr a beicwyr fel y bu ers blynyddoedd lawer. Bwriad y cynigion yw ehangu'r llwybr ac adlinio rhan ohono er mwyn gwella profiad pawb sy'n defnyddio'r llwybr.<br>Nod y cynllun yw creu cyfleuster llwybr defnydd a rennir gwell sy'n galluogi holl ddefnyddwyr y parc i symud yn ddiogel o fewn neu drwy'r parc.<br>Mae'r llwybr yn cael ei ehangu ac fe'i dyluniwyd i wahanu cerddwyr a beicwyr lle bo hynny'n bosibl ac i gael gwared ar droadau dall a phwyntiau gwrthdaro. Cynigiwyd codi rhannau o'r ffordd ar hyd y llwybr i arafu cyflymderau beicio ac i nodi croesfannau, yn enwedig ger yr ardal chwarae ym mhen deheuol y parc.<br>Am beth o'i hyd bydd y llwybr gwell yn dilyn aliniad y llwybr presennol. Fodd bynnag, mae rhannau o'r cynllun arfaethedig yn dilyn aliniad amgen. Ar y pen gogleddol byddai'r aliniad amgen yn osgoi rhan gul o'r llwybr presennol sy'n pasio'n agos at goed. Bydd y llwybr presennol yn cael ei gadw a bydd Taith Taf yn dilyn yr aliniad newydd. Yn y pen deheuol cynigir aliniad amgen er mwyn osgoi nifer o gyfyngiadau - agosrwydd coed, seilwaith presennol a nodweddion ecolegol - sy'n golygu nad yw'n bosibl ehangu'r llwybr presennol lle mae'n mynd heibio cyrtiau tenis ac afon Taf.<br>Cyhoeddodd Sustrans adroddiad Astudiaeth Taith Taf ym mis Ionawr 2018. Edrychodd yr astudiaeth hon ar y problemau a'r syniadau i wella Taith Taf rhwng Heol Penarth a Thongwynlais. Arolwg o ddefnyddwyr Taith Taf a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth a amlygodd y rhan trwy Barc Hailey fel un sydd angen ei gwella.<br>Asesodd ymchwil a wnaed gan Brifysgol Gorllewin Lloegr (https://uwe-repository.worktribe.com/output/907794/walking-and-cycling-interactions-on-shared-use-paths) y rhyngweithiadau sy'n digwydd rhwng beicwyr a cherddwyr ar lwybrau defnydd a rennir ac effaith y rhain ar brofiadau teithio. Casglodd yr ymchwil adborth gan ddefnyddwyr llwybrau ar eu profiad o ddefnyddio llwybrau a rennir a pha fesurau a allai helpu i wneud rhannu'r llwybr yn fwy pleserus. Canfu fod y diffyg eglurder ynghylch statws y llwybr a phwy all ei ddefnyddio yn cael effaith ar y berthynas rhwng defnyddwyr y llwybrau ac roedd defnyddwyr yn cefnogi darparu canllawiau ac arwyddion er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr sut i ddefnyddio'r llwybr yn gywir, er enghraifft cadw at ochr chwith y llwybr.<br>Bydd arwyddion priodol yn cael eu cynnwys yn y cynllun i gynghori defnyddwyr llwybrau sut i ddefnyddio'r llwybr yn ddiogel ac i annog ymddygiad ystyriol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ymgyrch hyrwyddo i atgyfnerthu negeseuon allweddol i wahanol grwpiau defnyddwyr. |

Cynhaliwyd arolygon i nodi nifer defnyddwyr y parc, y dull teithio a ddefnyddir a chyfeiriad teithio.
Ar ôl cwblhau cam cyntaf yr ymgynghoriad a chyhoeddi'r adroddiad ymgynghori, gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol gan ymgynghorwyr allanol ynghylch ecoleg Parc Hailey a statws ffyngau capiau cwyr. Ymchwiliwyd i aliniad y llwybr trwy Barc Hailey yn dilyn pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad am agosrwydd y rhan newydd o'r llwybr i'r ardaloedd chwarae.
Cynhaliwyd arolygon ychwanegol o fewn y parc i nodi unrhyw newidiadau yn nifer defnyddwyr y parc yn dilyn pandemig Covid-19.

**Beth yw'r costau a/neu'r arbedion?**
***Beth fydd cost y cynnig a sut bydd yn cael ei ariannu?***
***Sut gellid lleihau costau drwy gyfranogi a chydweithio, ar draws Cyngor Caerdydd a/neu gyda rhanddeiliaid allanol?***
***Oes arbedion a sut bydd y rhain yn cael eu gwireddu?***

Bydd y cynllun yn costio tua £700,00, ac yn gael ei ariannu gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

Datblygwyd y cynllun mewn cydweithrediad â nifer o adrannau Cyngor Caerdydd gan gynnwys Parciau, Trafnidiaeth a Chyflawni Dylunio. Mae'r cynllun hefyd wedi cael mewnbwn gan randdeiliaid allanol i leihau effaith coed a mannau gwyrdd ac i ddarparu gwelliannau diogelwch i ddefnyddwyr Parc Hailey a Taith Taf.

Mae cwmpas y cynllun wedi lleihau ac wedi cael ei ddiwygio yn dilyn adborth yn ystod y broses ymgynghori. Mae hyn wedi lleihau ôl troed y cynllun ac wedi lleihau'r effaith ar ecoleg leol tra'n gwella diogelwch defnyddwyr yn y parc.

## 3. Asesiadau o Effaith

**Pa asesiadau o effaith y mae angen i chi eu cwblhau i gefnogi eich cynnig?**

Mae rhagor o wybodaeth am bob asesiad wedi'i chynnwys ar ddechrau'r adran berthnasol.

Mae'r Offeryn Sgrinio Asesu Effaith yn rhoi cyngor sydd wedi'i deilwra i'ch polisi, eich strategaeth neu'ch prosiect arfaethedig ynghylch pa asesiadau effaith y gallai fod eu hangen a phwy i gysylltu â nhw i ddysgu mwy.

Mae'r offeryn sgrinio yn ffurflen ar-lein gyda chwestiynau amlddewis yn bennaf a dylai gymryd llai na 10 munud i'w gwblhau.

Ar ôl cyflwyno'r atebion, bydd e-bost awtomataidd yn cael ei anfon atoch gyda'r camau nesaf a argymhellir a manylion ynghylch â phwy i gysylltu am gyngor arbenigol.

**Rhowch Do neu Naddo wrth ymyl pob un o'r asesiadau o effaith a restrir isod i ddangos pa rai sy'n cael eu cyflawni. Ar gyfer asesiadau nad ydynt yn cael eu cynnal, dilëwch yr adrannau perthnasol ar y tudalennau dilynol.**

| Asesiad o Effaith | Cwblhawyd: Do / Naddo |
|---|---|
| A. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Do |
| B. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | Do |
| C. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | Do |
| D. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Do |
| E. Asesiad Amgylcheddol Strategol | Do |
| F. Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data | Do |
| G. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Do |

Am ragor o wybodaeth am yr holl asesiadau o effaith uchod gan gynnwys pwy i gysylltu ag ef/hi am gyngor, ewch i'r Porth Polisi.

# A:  Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Gellir cael canllawiau ar gyfer cwblhau'r asesiad hwn yma. Cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb am unrhyw gymorth pellach o ran cwblhau'r asesiad hwn - TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae "effaith wahaniaethol" yn golygu y bydd pobl o nodwedd warchodedig benodol (e.e. pobl o oedran penodol) yn cael eu heffeithio'n llawer mwy gan y newid na grwpiau eraill.

**Effaith ar y Nodweddion Gwarchodedig**

**Oedran**

A fydd y cynnig yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol / negyddol]** ar wahanol grwpiau oedran?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Hyd at 18 oed | X | | |
| 18 - 65 oed | X | | |
| Dros 65 oed | X | | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau’r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mae'r aliniad arfaethedig yn dileu'r man gwrthdaro presennol i'r de o faes parcio Radyr Road lle bu adroddiadau o ddigwyddiadau rhwng gwahanol ddefnyddwyr y parc.  Bydd y llwybr newydd yn gwella gwelededd ac yn caniatáu i ddefnyddwyr basio ei gilydd ar y llwybr yn hytrach na defnyddio'r ardaloedd glaswelltog fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd yr aliniad newydd yn darparu cysylltedd parhaus o Heol Tŷ Mawr i danffordd Heol y Bont trwy Barc Hailey gan gysylltu'r cyrtiau tennis, yr ardal chwarae i blant, yr ardal chwarae i blant bach, sawl cae rygbi a chysylltiad â maes parcio Radyr Road.   Ar hyn o bryd mae'n rhaid i ddefnyddwyr symud i ffwrdd o’r llwybr Taith Taf presennol i gael mynediad i'r ardaloedd chwarae a'r cyrtiau tennis. |

| |
|---|
| Bydd ehangu'r llwybrau yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â nam symudedd, golwg a chlyw. Mae ymgysylltu blaenorol wedi nodi y gall arwynebau a rennir effeithio'n negyddol ar bobl anabl oherwydd beicwyr anystyriol, drwy ehangu'r llwybrau a thrwy ddarparu arwyddion i feicwyr gallai hyn fod yn ganlyniad cadarnhaol. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Bydd y llwybr presennol wrth ochr yr afon yn parhau fel llwybr defnydd a rennir a gall beicwyr ei ddefnyddio yn ogystal â defnyddwyr eraill y parc. Awgrymwyd elfennau dylunio i annog beicwyr i beidio â defnyddio'r llwybr presennol oherwydd y lled cul a'r diffyg ardaloedd pasio ar y llwybr presennol. Bydd beicwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhan newydd o'r llwybr defnydd a rennir ehangach sy'n cynnig gweledVedd gwell o'r ddau gyfeiriad trwy'r parc. |

**Anabledd**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol / negyddol]** ar bobl anabl?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Nam ar y Clyw | **X** | | |
| Anabledd Dysgu | **X** | | |
| Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | **X** | | |
| Iechyd Meddwl | **X** | | |
| Niwroamrywiaeth | **X** | | |
| Nam Corfforol | **X** | | |
| Camddefnyddio Sylweddau | **X** | | |
| Nam ar y Golwg | **X** | | |
| Arall | **X** | | |

| |
|---|
| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |

| |
|---|
| Mae darparu cyfleoedd i gerdded a beicio ac ansawdd a hygyrchedd y seilwaith cerdded a beicio yn effeithio ar bawb, ond ar bobl sydd ag anableddau yn benodol. Mae'n bosibl y bydd y manteision a amlygir isod yn cael eu gwireddu o ganlyniad i wella rhwydwaith teithio llesol Caerdydd:<br><br>• Mae galluogi plant a phobl ifanc i deithio'n llesol yn sicrhau nifer o fuddion iechyd posibl i bobl anabl oherwydd bod ganddo'r potensial i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, a ddangoswyd yn helaeth i fod yn llesol am nifer o gyflyrau iechyd a namau, yn enwedig am hyrwyddo iechyd meddwl da. Mae mwy a mwy o dystiolaeth sy'n amlygu effaith fuddiol gweithgarwch corfforol ar gyfer iechyd corfforol a meddwl. Gall darpariaeth teithio llesol hefyd wella hygyrchedd mannau gwyrdd a glas, a all fod yn arbennig o fuddiol, yn ogystal â mynediad at gyfleoedd eraill ar gyfer gweithgarwch corfforol.<br>• Gall gwella cyfleusterau ar gyfer teithio llesol wneud teithio yn y ffyrdd hyn yn haws i bobl anabl trwy sicrhau bod llwybrau a chyfleusterau o safon uchel ac yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf ar ddylunio.<br>• Mae'n bosibl y bydd methu â darparu'r buddion hyn yn dod â goblygiadau o ran cyflawni ymrwymiadau lles e.e. Cymunedau diogel, hyderus a grymus. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Caiff effaith wahaniaethol gadarnhaol ei chyflawni drwy'r ymyrraeth, gan wella darpariaeth a dewis i bobl anabl a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cael ei adolygu i sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau effaith negyddol o'r ymyrraeth, gan sicrhau bod canllawiau a safonau dylunio priodol yn cael eu hadlewyrchu.<br><br>Bydd y cynllun arfaethedig yn sicrhau y bydd y rhwystrau mynediad ac ansawdd arwynebau presennol yn cael sylw drwy'r cynllun arfaethedig i ddarparu mynediad i feicwyr anabl. |

**Ailbennu Rhywedd**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol / negyddol]** ar bobl drawsryweddol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Pobl Drawsryweddol<br><br>(Mae pobl drawsryweddol yn bobl y mae ei hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddynt adeg eu geni.) | | | X |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ar hyn o bryd, ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol parthed y nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd a nodir lliniariadau yn ôl y gofyn. |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol / negyddol]** ar briodas a phartneriaeth sifil?

| | Byd d | Na fydd | Dd/ B |
|---|---|---|---|
| Priodas | | | X |
| Partneriaeth Sifil | | | X |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| |

| |
|---|
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ar hyn o bryd, ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol parthed y nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd a nodir lliniariadau yn ôl y gofyn. |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol / negyddol]** ar feichiogrwydd a mamolaeth?

| | **Byd d** | **Na fydd** | **Dd/ B** |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | X | | |
| Mamolaeth | X | | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Bydd ehangu ac ailalinio llwybrau yn gwneud mynediad yn haws i fenywod beichiog sy'n defnyddio'r llwybrau, bydd hefyd yn gwella mynediad i fenywod â phramiau a chadeiriau gwthio yn y cyfnod mamolaeth. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd a nodir lliniariadau yn ôl y gofyn. |

**Hil**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol / negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | Byd d | Na fydd | Dd/ B |
|---|---|---|---|
| Gwyn | X | | |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig | X | | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | X | | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | X | | |
| Grwpiau Ethnig Eraill | X | | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mae cyfleoedd i gerdded a beicio a ddarperir yn ogystal ag ansawdd a hygyrchedd y seilwaith cerdded a beicio yn effeithio ar bawb, ond i grwpiau penodol yn arbennig. Mae'r buddion a amlygir isod yn annhebygol o gael eu gwireddu gyda'r ymyrraeth hon:<br><br>• Mae'n bosibl y bydd hyrwyddo teithio llesol ac iach yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp ond gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn beicio'n llai mae'n bosibl y bydd yn cael effaith wahaniaethol gadarnhaol ar gyfer y grwpiau hyn yn benodol. Er enghraifft, mae adroddiad Bike Life Cardiff 2017 yn dangos bod 12% o feicwyr o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, sy'n ostyngiad o'i gymharu â 16% yn 2015. Er bod hyn yn cyfateb yn fras â chanran poblogaeth Caerdydd sydd o gefndir nad yw'n wyn, sef 16.7% (Ystadegau Cymru 2018), adroddir am lefelau isel o gymryd rhan mewn beicio gan grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn helaeth mewn mannau eraill. Er enghraifft mae astudiaeth TfL yn awgrymu bod llai na 7% o'r holl feicwyr yn dod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig (TfL 2011 What are the barriers to cycling amongst ethnic minority groups and people from deprived backgrounds?).<br>• Hefyd, mae cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn ehangach yn aml yn is mewn grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, felly mae'n bosibl y bydd ymyrraeth sy'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol ac iach eto yn arbennig o fuddiol i'r grwpiau hyn.<br>• Yn fwy bras, bydd gwelliannau o ran llwybrau a chyfleusterau cerdded a beicio yn galluogi mynediad haws at wasanaethau a chyfleusterau allweddol, gan gynnwys cyfleoedd diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol / dysgu. |

| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
|---|
| Caiff effaith wahaniaethol gadarnhaol ei chyflawni trwy ymyrraeth, gan wella dewisiadau i blant / pobl ifanc a'u teuluoedd. Caiff hyn ei adolygu er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol yn deillio o'r ymyrraeth. |

**Crefydd, Credoau, neu Ddiffyg Cred**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol / negyddol]** ar bobl sydd â chrefyddau, credoau a diffyg cred wahanol?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Bwdhaidd | X | | |
| Cristnogol | X | | |
| Hindŵaidd | X | | |
| Dyneiddiol | X | | |
| Iddewig | X | | |
| Mwslimaidd | X | | |
| Sikh | X | | |
| Cred arall | X | | |
| Dim cred | X | | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mae cyfleoedd i gerdded a beicio a ddarperir yn ogystal ag ansawdd a hygyrchedd y seilwaith cerdded a beicio yn effeithio ar bawb, ond i grwpiau penodol yn arbennig. Mae'r buddion a amlygir isod yn annhebygol o gael eu gwireddu gyda'r ymyrraeth hon:<br><br>• Mae'n bosibl y bydd gwella hygyrchedd o fewn cymunedau yn ehangach yn sicrhau ei bod yn haws cael mynediad at addoldai a chyfleusterau ffydd, gan wella cydlyniad cymunedol. |

| |
|---|
| |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Gellir cyflawni effaith wahaniaethol gadarnhaol trwy'r ymyrraeth. Caiff hyn ei adolygu er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol yn deillio o'r ymyrraeth. |

**Rhyw**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol / negyddol]** ar bobl wrywaidd, fenywaidd neu anneuaidd?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Pobl wrywaidd | X | | |
| Pobl fenywaidd | X | | |
| Pobl anneuaidd | X | | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mae cyfleoedd i gerdded a beicio a ddarperir yn ogystal ag ansawdd a hygyrchedd y seilwaith cerdded a beicio yn effeithio ar bawb, ond i grwpiau penodol yn arbennig. Mae'r buddion a amlygir isod yn annhebygol o gael eu gwireddu gyda'r ymyrraeth hon:<br><br>• Ynglyn â beicio yn benodol, mae adroddiad Bike Life Cardiff 'Women: Reducing the gender gap' yn dangos bod cymhareb o 1:19 o ran beicwyr benywaidd i feicwyr gwrywaidd, nid yw 70% o fenywod byth yn reidio beic ac nid yw 31% o fenywod sy'n byw yng Nghaerdydd byth yn reidio beic ond byddent yn hoffi gwneud hyn.<br>• Mae'n bosibl y byddai gwella cyfleoedd ar gyfer cerdded a beicio'n rheolaidd yn gwneud cyfraniad sylweddol i annog dulliau byw iach a llesol. Mae tystiolaeth gynyddol sy'n awgrymu bod cyfran uwch o fenywod yn y DU yn dioddef o iechyd gwaeth yn hwy. Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr o fis Medi 2018 yn dweud bod menywod yn dioddef iechyd gwael am 19.3 mlynedd / 23% |

| |
|---|
| o'u bywydau o'i gymharu â 16.2 mlynedd / 20% i ddynion. Amlygir gordewdra fel un o'r ddau ffactor pwysig ar gyfer iechyd gwael, ochr yn ochr ag ysmygu.<br><br>O ran beicio'n benodol, mae adroddiad Bike Life Caerdydd yn dangos bod menywod yn cael eu tangynrychioli ymhlith beicwyr rheolaidd o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Pe bai'r tangynrychiolaeth yma'n parhau, bydd cyfran uwch o fenywod na fydd yn elwa'n uniongyrchol o welliannau i'r rhwydwaith beicio o gymharu â dynion. Mewn lleoliadau lle mae darpariaeth ar wahân o ansawdd da ar gyfer beicio a lefelau uchel o feicio (Yr Iseldiroedd, Copenhagen) mae mwy o feicwyr benywaidd na dynion. Mae'n debygol iawn, felly, bod ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer beicio yn cael mwy o effaith ar feicwyr benywaidd na dynion. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Gellir cyflawni effaith wahaniaethol gadarnhaol trwy'r ymyrraeth. Caiff hyn ei adolygu er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol yn deillio o'r ymyrraeth.<br><br>Mae'r dull a ddefnyddir i ddatblygu'r Map Rhwydwaith yn pwysleisio darpariaeth ar gyfer beicwyr o bob oed a gallu, gan gynnwys mwy o lwybrau ar wahân i gerbydau modur sydd â digon o gapasiti i bob defnyddiwr. |

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol / negyddol]** ar bobl â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | | X | |
| Hoyw | | X | |
| Lesbiaidd | | X | |
| Heterorywiol | | X | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arall | | X | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ar hyn o bryd, ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol parthed y nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd a nodir lliniariadau yn ôl y gofyn. |

**Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

A ragwelir y bydd y newid yn lleihau neu'n cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniad, o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? (e.e. a fydd y newid yn cael effaith negyddol ar y rheini sydd ar incwm isel, neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig?)

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Effaith economaidd-gymdeithasol | X | | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Efallai y bydd effaith wahaniaethol o ran dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae cerdded yn ddull trafnidiaeth cost isel ac mae beicio'n ddull â chost gymharol isel ar gyfer teithiau byr o'i gymharu â'r car preifat. Felly bydd darparu mwy o gyfleoedd i deithio ar droed neu ar feic yn lle mewn car yn arbed costau i unigolion a busnesau preifat. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i aelwydydd a chymunedau incwm is. Yn ehangach, gall gael effaith economaidd gadarnhaol o ganlyniad i effeithio ar newid moddol o ddefnyddio ceir i gerdded, beicio a defnyddio bysus a allai helpu i fynd i'r afael â thagfeydd a'u heffeithiau negyddol ar gynhyrchiant busnes a chyfathrebu |

| |
|---|
| busnes i fusnes. Profwyd bod cynyddu cerdded a beicio ynddo'i hun yn cael dylanwad cadarnhaol ar weithgarwch economaidd lleol (cynnydd o 30% mewn gwerthiannau).<br><br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod llygredd aer yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau difreintiedig, felly gallai gwelliannau i ansawdd aer sy'n deillio o gynyddu'r defnydd o ddulliau teithio llesol fod o fudd arbennig i'r cymunedau hyn. Yng Nghaerdydd, mae trigolion yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd yn destun lefelau uwch o lygredd aer. Disgrifir hyn fel yr effaith 'perygl triphlyg': "lle gall y cyfuniad o lygredd aer, iechyd gwael ac amddifadedd gryfhau cysylltiadau a chreu beichiau clefyd anghymesur rhwng ac o fewn cymunedau (anghydraddoldebau)."<br><br>Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn llawer mwy tebygol o gael eu hanafu ar ffyrdd na phlant o gefndiroedd mwy cefnog. Mae hwn yn duedd hirsefydlog, gyda thystiolaeth yn awgrymu bod plant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig tua thair i bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn rhan o wrthdrawiad traffig ffyrdd na phlant mewn ardaloedd mwy cefnog. Felly, gallai gwelliannau i ddiogelwch ffyrdd fod o fudd arbennig i blant oedran ysgol o gefndiroedd difreintiedig. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Gellir cyflawni effaith wahaniaethol gadarnhaol trwy'r ymyrraeth. Caiff hyn ei adolygu er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol yn deillio o'r ymyrraeth. |

**Y Gymraeg**

**CWBLHEWCH ADRAN C: ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG**

**Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i ymgynghori / ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb / cymunedol, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli’r rhai rydych chi wedi'u nodi sy'n debygol o gael eu heffeithio?

Ymgysylltu Cynnar

Cynhyrchwyd adroddiad Astudiaeth Llwybr Taith Taf, a gomisiynwyd gan y Cyngor, gan Sustrans ym mis Ionawr 2018. Edrychodd yr astudiaeth hon ar y problemau a'r syniadau i wella Taith Taf rhwng Heol Penarth a Thongwynlais. Arolwg o ddefnyddwyr Taith Taf a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth a amlygodd y rhan trwy Barc Hailey fel un sydd angen ei gwella. Wrth ddatblygu'r cynllun, cynhaliwyd ymgysylltiad cynnar ag adran Parciau Cyngor Caerdydd, ymgynghorwyr allanol / tyfwyr coed, Cyfeillion Parc Hailey, Dinas Feicio Caerdydd a Sustrans.

Ymgynghoriad Cyhoeddus – Mawrth 2020

Roedd y cynigion cychwynnol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2020.

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Arolwg byr gyda’r dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Caerdydd
- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Datganiad i’r Wasg
- Gwybodaeth ar dudalen flaen gwefan y Cyngor
- Cyfryngau cymdeithasol

Fel rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yng nghaffi Ride My Bike ar 11 Mawrth 2020 rhwng 17.30 a 19.30 i edrych ar gynlluniau Parc Hailey a Beicffordd 4.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori pellach yn ôl y bwriad yn 2il Grŵp Sgowtiaid Llandaf, Belle Vue Crescent ar 14 Mawrth 2020 rhwng 10.00 a 14.00 i edrych ar gynllun Parc Hailey a’i drafod.

Oherwydd cyfyngiadau’r cyfnod clo, nid oedd modd cynnal unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori pellach. Fodd bynnag, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i bobl wneud sylwadau a rhoi adborth ar y cynllun, cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn am bythefnos arall.

Ymchwiliwyd i aliniad y llwybr trwy Barc Hailey yn dilyn pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad am agosrwydd y rhan newydd o'r llwybr i'r ardaloedd chwarae. Cynhyrchwyd model 3D i alluogi swyddogion y Cyngor i ddelweddu'r rhan hon o'r

cynllun. Defnyddiwyd y deunyddiau hyn fel rhan o ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd pellach a gynhaliwyd yng ngwanwyn / haf 2023.

Digwyddiad 'Galw Heibio' Cyhoeddus – 19 Ebrill 2023

Cynhaliwyd digwyddiad galw heibio ymgysylltu yn Neuadd Sgowtiaid Ystum Taf ddydd Mercher 19 Ebrill rhwng 5pm ac 8pm.

Cyn y digwyddiad, postiwyd gwahoddiadau i dros 600 o eiddo preswyl ar strydoedd i'r gorllewin o Heol yr Orsaf ac i'r de, gan gynnwys ardal Heol Tŷ Mawr yn Ward Ystum Taf. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Roedd copïau papur o'r cynlluniau trefniant cyffredinol a darnau o ddelweddau 3D y cynllun yn cael eu harddangos ar waliau a byrddau. Dangosodd swyddogion fideo o'r delweddau 3D ar gyfrifiadur personol a monitor yn y digwyddiad.

Cyhoeddi’r cynlluniau diwygiedig a’r delweddau 3D ar-lein: Dydd Iau 13 Gorffennaf - Dydd Gwener 11 Awst

Cyhoeddwyd copïau o'r holl gynlluniau a deunyddiau ar wefan y Cyngor am bedair wythnos rhwng dydd Iau 13 Gorffennaf a dydd Gwener 11 Awst 2023.

Cyflwynwyd 20 o ymatebion yn y digwyddiad ymgysylltu yn Neuadd Sgowtiaid Llandaf. Derbyniwyd 125 o ymatebion drwy e-bost.

Cyfarfod Safle gyda rhanddeiliaid / taith o’r cynllun 1 Awst 2023

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol ac ymgyngoreion cynllun ar y safle i wneud taith o’r llwybr arfaethedig a thrafod cynigion y cynllun. Y grwpiau a gynrychiolwyd yn y cyfarfod oedd:

- Cyfeillion Parc Hailey
- Cymdeithas Trigolion Llandaf
- Dinas Feicio Caerdydd
- Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yr Eglwys Newydd

Rhoddodd y cyfarfod gyfle i’r rhanddeiliaid drafod eu pryderon am y cynllun â’r swyddogion yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig ar 11 Awst 2023.

**Crynodeb o Gamau Gweithredu (a restrir yn yr Adrannau uchod)**

| | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Oedran | |
| Anabledd | |
| Ailbennu Rhywedd | |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | |
| Hil | |
| Crefydd / Cred | |
| Rhyw | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | |
| Effaith economaidd-gymdeithasol | |
| Cyffredinol / Trosfwaol (yn berthnasol i'r holl grwpiau uchod) | |

**Y Camau Nesaf**

Dylid cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich Gwasanaeth i'w monitro'n rheolaidd.

Pan fo'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn dangos effeithiau negyddol, rhaid i chi atodi'r ffurflen i'r Cabinet neu Adroddiad Penderfyniad y Swyddog.

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, sicrhewch fod y ffurflen yn cael ei chyflwyno i flwch post y Tîm Cydraddoldeb fel bod cofnod o'r holl asesiadau a gynhelir yn y Cyngor TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk.

# B: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Nod Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw rhoi plant a phobl ifanc ar flaen y gad wrth wneud penderfyniadau. Mae'r asesiad yn helpu swyddogion i ystyried sut y gall hawliau plant a phobl ifanc gael eu heffeithio gan bolisi neu brosiect arfaethedig.

Cliciwch yma i ddechrau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Byddwch yn derbyn e-bost awtomataidd sy'n cynnwys dolen i'ch templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a bydd Tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant mewn cysylltiad i'ch cefnogi.

Mae'r canllawiau ar gyfer Llywodraeth Leol a baratowyd gan Unicef ar gael yma:

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant - Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant (unicef.org.uk)

Am ragor o wybodaeth neu gymorth i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, cysylltwch â Thîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

**Y Camau Nesaf**

Pan ystyrir bod angen Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, rhaid i chi atodi'r ffurflen i'r Cabinet neu Adroddiad Penderfyniad y Swyddog.

# C:  Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cysylltwch â Thîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog am unrhyw gymorth yn cwblhau'r asesiad hwn, drwy e-bostio Materion Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Matters.

## Safonau'r Gymraeg 88-97 (Llunio Polisi)

Gellir dod o hyd i Hysbysiad Cydymffurfio llawn Cyngor Caerdydd yma, ond mae'r Safonau a nodir uchod yn benodol yn ymwneud â pha effaith, os o gwbl, sydd gan eich cynnig (boed yn benderfyniad polisi, polisi neu strategaeth newydd neu ddiwygiedig, neu ddarpariaeth gwasanaethau diwygiedig) ar yr iaith Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg. Gallai'r effaith a nodwyd fod yn **uniongyrchol neu'n anuniongyrchol** a rhaid cynnwys unrhyw dystiolaeth o'r fath.

Cânt eu crynhoi isod, a **rhaid** i chi ddarparu tystiolaeth, yn enwedig o unrhyw ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, er mwyn cefnogi eich sylwadau, p'un a ydych yn nodi effaith cadarnhaol, andwyol neu niwtral.

- A fydd y cynnig hwn yn effeithio ar a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a b) **peidio** â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?  (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | Cadarnhaol | Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|---|
| a) | X | | |
| b) | X | | |

**Yn seiliedig ar eich ateb uchod, rhowch sylwadau a thystiolaeth ategol yn y blychau perthnasol ar y cwestiynau canlynol, ar gyfer pob un o'r uchod yr ydych wedi eu ticio.**

- A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn, fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol?

  A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn i sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu effeithiau llai andwyol?

| |
|---|
| Bydd yr arwyddion newydd ac wedi'u diweddaru i'w cynnwys yn y cynllun, i gynghori defnyddwyr llwybrau sut i ddefnyddio'r llwybr yn ddiogel ac i annog ymddygiad ystyriol, yn gwbl ddwyieithog, yn ogystal â'r ymgyrch hyrwyddol. |

Bydd manylebau'r tendr yn nodi y bydd angen i'r arwyddion fod yn ddwyieithog. Gall Caerdydd Ddwyieithog helpu i wirio dyluniadau arwyddion yn ôl yr angen.

- Wrth ymgynghori ar y cynnig, a gafodd safbwyntiau eu hystyried a'u ceisio ar yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) y byddai'n eu cael ar yr iaith Gymraeg ac ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ehangach?

  A wnaeth yr ymgynghoriad geisio a rhoi ystyriaeth i safbwyntiau ar sut y gallai'r cynnig gael effeithiau cadarnhaol, neu gynyddu effeithiau cadarnhaol?

  A wnaeth yr ymgynghoriad geisio a rhoi ystyriaeth i safbwyntiau ar sut y gallai'r cynnig gael dim effeithiau andwyol, neu effeithiau llai andwyol?

  Dylech gynnwys copi o'r cwestiwn / cwestiynau ymgynghori perthnasol isod ynghyd â'ch tystiolaeth.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg a chafwyd ymatebion yn Gymraeg a Saesneg.

- Os yw'r cynnig yn cynnwys dyfarnu grantiau, a roddwyd ystyriaeth i'r canllawiau a gyflwynwyd ym Mholisi Cyngor Caerdydd ar Ddyfarnu Grantiau yn unol â Safonau'r Gymraeg o ran a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a b) o ran **peidio** â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

  Gallwch nodi **Dd/B** os nad oedd unrhyw weithred o ddyfarnu grantiau.

| |
|---|
| Dd/B |

- Os cafodd ymchwil ei gwneud neu ei chomisiynu i gynorthwyo gyda datblygu'r cynnig, a oedd yn ystyried a fyddai'n cael effaith **wahaniaethol [cadarnhaol / negyddol]** ar a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

  A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai gael effaith gadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol?

  A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai gael dim effeithiau andwyol, neu effeithiau llai andwyol?

  Gallwch nodi **Dd/B** os na chynhaliwyd neu comisiynwyd unrhyw ymchwil.

| |
|---|
| Dd/B |

**Deunyddiau a Gwasanaethau**

Yn ogystal â'r asesiad effaith i sicrhau bod y cynnig yn ateb gofynion Safonau'r Gymraeg, rhaid ystyried hefyd y deunyddiau a'r gwasanaethau ategol allai fod eu hangen.

Cliciwch ar y canlynol i weld rhagor o wybodaeth am faterion penodol:

- Gohebiaeth - derbyn ac ateb (negeseuon e-bost, llythyrau, cyfathrebu ar-lein).

- Cyrsiau Hyfforddiant Addysg
- Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus - cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus, cyfarfodydd grŵp, ymgynghori, cyfarfodydd unigol.
- Rhestr Wirio Caffael
- Cynhyrchu Ffurflenni
- Cynhyrchu Dogfennau Cyhoeddus - polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, hysbysiadau, codau ymarfer, papurau ymgynghori, trwyddedau, tystysgrifau, rheolau, llyfrynnau, taflenni, pamffledi neu gardiau, tocyn / talebau.
- Cyhoeddiadau Cyhoeddus
- Negeseuon Cyhoeddus – electronig – fideo
- Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu
- Gwasanaethau Derbynfa
- Peiriannau Hunan-wasanaeth
- Arwyddion, Hysbysiadau a Deunydd Arddangos
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Ffôn - derbyn ac ateb galwadau.
- Gwefannau, Apiau a Gwasanaethau Ar-lein

| **A yw'r holl ddeunyddiau a gwasanaethau ategol yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg? Os nad ydynt, anfonwch unrhyw waith cyfieithu gofynnol at Log Cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog – gellir dod o hyd i'r ffurflen gais yma.** |
|---|
| Ydynt |

**Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd**

Gellir gweld y strategaeth hon yma ac mae dogfennau cyfarwyddyd ychwanegol wedi eu cynhyrchu i gefnogi ei gweithrediad:

- Asesu Sgiliau Cymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Dethol a Chyfweld a'r Gymraeg.

| **A oes gennych fynediad i ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi cyflawni'r cynnig wrth gydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg?** |
|---|
| Oes, byddwn yn cysylltu â Chaerdydd Ddwyieithog ar gyfer cyfieithu a phrawf-ddarllen yr arwyddion a'r testun ar gyfer yr ymgyrch hyrwyddol. |

**Y Camau Nesaf**

Pan ystyrir bod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn hanfodol, rhaid i chi atodi'r ffurflen i'r Cabinet neu Adroddiad Swyddog y Cabinet.

Rhaid hefyd e-bostio copi at Dîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog Materion Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Matters.

# D: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

| | Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn effeithio ar safle Ewropeaidd wedi'i ddynodi oherwydd ei ddiddordeb cadwraeth natur*, neu'n llywio datblygiad tuag at ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd, neu'n effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd? | ☐ | ☒ |

** Dim ond dau safle Ewropeaidd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu diddordeb cadwraeth natur sydd i'w cael o fewn ffiniau Caerdydd - Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd, ond byddwch yn ymwybodol os yw'ch prosiect yn effeithio ar ardal sy'n agos at awdurdod cyfagos.*

Os mai 'Bydd' yw'r ateb, yna efallai y bydd angen cynnal ymarfer sgrinio i benderfynu a oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ai peidio.

Cysylltwch â'r Tîm Bioamrywiaeth  a fydd yn eich tywys drwy'r broses.

# E: Asesiad Amgylcheddol Strategol

| | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| A yw'r strategaeth, polisi neu weithgaredd yn gosod y fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol? | ☐ | ☒ |

| | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| A yw'r strategaeth, polisi neu weithgaredd yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol (cadarnhaol neu negyddol)? | ☐ | ☒ |

Os ydych wedi ateb 'Ydy' i’r ddau gwestiwn uchod, yna mae angen Sgriniad Asesiad Amgylcheddol Strategol llawn.

Cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy a fydd yn eich tywys drwy'r broses.

# F: Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

| | Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion? | ☐ | ☒ |

Os mai 'Bydd' yw'r ateb, yna efallai y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Cliciwch yma i ddarllen y canllawiau a dechrau'r broses Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data os oes angen.

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth.

# G: Asesiad o’r Effaith ar Iechyd

Mae Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn helpu i ddatblygu polisïau a phrosiectau sy'n ystyried iechyd meddwl, corfforol a chymdeithasol a lles poblogaeth wrth gynllunio a datblygu. Mae ystyried anghydraddoldebau iechyd a'u heffeithiau ar gymunedau lleol yn rhan hanfodol o unrhyw Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.

Daw Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol i gyrff cyhoeddus mewn amgylchiadau penodol yn y dyfodol. Nid yw'r amgylchiadau hyn wedi'u cyhoeddi eto gan Lywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, cysylltwch ag Uned Gymorth AEI Cymru.

Gwefan: Hafan - Uned Cefnogi Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd Cymru (phwwhocc.co.uk)

E-bostiwch: WHIASU.PublicHealthWales@wales.nhs.uk